# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 6

HYSBYSIADAU A CHYFARWYDDYDAU A RODDIR GAN CCAUC

*Y weithdrefn rhybuddio ac adolygu ar gyfer hysbysiadau a chyfarwyddydau penodol*

### 41 Cymhwyso adrannau 42 i 44

(1) Mae adrannau 42 i 44 yn gymwys i—

(a) hysbysiad o dan adran 7(1)(b) (gwrthod cynllun ffioedd a mynediad arfaethedig),

(b) cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu,

(c) cyfarwyddyd o dan adran 13 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun a gymeradwywyd),

(d) cyfarwyddyd o dan adran 19 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol),

(e) cyfarwyddyd o dan adran 33 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod),

(f) hysbysiad o dan adran 37 (gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd), ac

(g) hysbysiad o dan adran 39 (tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl).

(2) Ond nid yw'r adrannau hynny yn gymwys i gyfarwyddyd nad yw'n darparu ond ar gyfer dirymu cyfarwyddyd cynharach (gweler adran 46).

### 42 Hysbysiadau a chyfarwyddydau arfaethedig: gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio

(1) Os yw CCAUC yn bwriadu rhoi i gorff llywodraethu hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo, rhaid i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu.

(2) Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio—

(a) nodi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig;

(b) datgan rhesymau CCAUC dros fwriadu ei roi;

(c) hysbysu'r corff llywodraethu y caiff gyflwyno sylwadau am yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig;

(d) pennu, yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy reoliadau, y cyfnod y caniateir i sylwadau gael eu cyflwyno ynddo a'r ffordd y caniateir gwneud hynny.

(3) Wrth benderfynu pa un ai i roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, rhaid i CCAUC ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y corff llywodraethu yn unol â'r hysbysiad rhybuddio.

(4) Os yw CCAUC, ar ôl ystyried y sylwadau hynny, yn penderfynu peidio â rhoi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, rhaid iddo roi hysbysiad am y penderfyniad hwnnw i'r corff llywodraethu.

## 43 Gwybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddydau

Os yw CCAUC yn rhoi i gorff llywodraethu hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo, rhaid iddo ar yr un pryd roi i'r corff llywodraethu ddatganiad—

(a) sy'n nodi rhesymau CCAUC dros roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd,

(b) sy'n hysbysu'r corff llywodraethu y caiff wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd o dan adran 44, ac

(c) sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth ragnodedig arall.

## 44 Adolygu hysbysiadau a chyfarwyddydau

(1) Os yw CCAUC yn rhoi i gorff llywodraethu hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo, caiff y corff llywodraethu (yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir fel y'i disgrifir yn is-adran (4)(a)) wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd.

(2) Mae adolygiad i'w gynnal gan berson, neu banel o bersonau, a benodir gan Weinidogion Cymru; a chaiff Gweinidogion Cymru dalu tâl a lwfansau i bersonau a benodir o dan yr is-adran hon.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag adolygiadau o dan yr adran hon.

(4) Caiff y rheoliadau, ymhlith pethau eraill, wneud darpariaeth—

(a) ynghylch y seiliau y caniateir i gais am adolygiad gael ei wneud arnynt;

(b) ynghylch y cyfnod y caniateir i gais gael ei wneud ynddo a'r ffordd y caniateir gwneud hynny;

(c) ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn gan berson neu banel sy'n cynnal adolygiad;

(d) ynghylch y camau sydd i'w cymryd gan CCAUC yn dilyn adolygiad;

(e) i hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo beidio â chael ei drin fel pe bai wedi ei roi hyd nes bod unrhyw gamau a bennir yn y rheoliadau wedi eu cymryd, neu hyd nes bod unrhyw gyfnod a bennir yn y rheoliadau wedi dod i ben.